COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  GORFFENNAF 17eg 2024.

.

PRESENNOL – Gwyn Davies, Awel Hughes Cadeirydd, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc). Cyng Gwennol Ellis, Glennydd Evans. Alun Jones

Croesawyd Marc Roberts I adrodd yn ol ar y Astudiaeth Dichonoldeb – cafwyd yr adroddiad drafft a mi fydd yn mynychu y cyfarfod nesaf i roi adroddiad  I'r Cyngor. Mae copi o'r adroddiad drafft gan y clerc.

1.YMDDIHEURIADAU –  Llyr Jones, Carwyn Edwards

2. DATGAN BUDDIANNAU – Gwynfryn Jones, Alun Jones, (Cor Llangwm)

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF –  Cynigwyd yn gywir gan Alun Jones ac eilwyd gan Gwyn Davies.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –  Y  Clerc methu cael ateb gan y peintwyr.

5. CYLLIDEB  -  Yn y Banc 29.06.24 - £18150.40

Gwariant hyd yma Nant Fach - £1842.00

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Alun ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| Fine Line | s19 | £154.76 |
| Sioned Jones Blodau | s19 | £155.13 |
| Zurich Insiwrans | s150 | £684.16 |
| Cyngor Conwy Llyfrgell | s19 | £750.00 |
| Marc Roberts | | £1490.63 |

7. NEUADD FACH -    Y Clerc I gysylltu gyda Tomos Hughes I symud y Diffib I ochr arall y neuadd fach.

Angen diweddariad ynghlyn ar neuadd.

8.CAEAU CHWARAE -

DINMAEL – Aros am ddyfyn brisiau am offer gan 2 gwmni.

9.  CYNLLUNIO  – PARC  Tystysgrif Cyreitholdeb

NANT YR HELYG – Addasu a gwella'r eiddo.

Dim gwrthwynebiad.

10. GOHEBIAETH –

Llythyr gan –

Cor Llangwm – Yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at groesawu y Cor o Bafaria, a hefyd am arian I brynnu anrheg gan Cor Llangwm I Gor Bafaria -penderfynwyd rhoi £400 tuag at y costau a bod y Cyngor Cymuned yn prynu anrheg iddynt gwerth oddeutu £75.00

Merched y Wawr – Llythyr o ddiolch am y cyfraniad ariannol

11. UNRHYW FATER ARALL

Bancio ar y We – Y clerc wedi cael gwybodaeth ac I gario ymlaen.

Ty Capel Gellioedd – Cwyn wedi dod I law y Clerc yn cwyno am ddiogelwch Ty Capel Gellioedd – Gwynfryn I gael gair gyda'r perchenog.

Pont y Glyn – Angen I'r clerc unwaith eto anfon I'r Cyngor I roi cwyn am gyflwr y Bont.

Hwb Uwchaled yn nodi fod ganddynt Offer Codi Llanast os oes gan y gymuned ddiddordeb eu defnyddio.

Coeden yn y Fynwent. – Mae coeden yn y fynwent yn malu wal sydd yn taro ar Ty Newydd – y Clerc I holi Gwilym Prys am bris I wneud y gwaith.

DYDDIAD CYFARFOD NESA

NOS IAU 26.09.24 am 7.30 o'r gloch.